



Ein cyf/Our ref: LG/571/21

Llyr Gruffydd MS,  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd,  
yr Amgylchedd a Seilwaith

[SeneddClimate@senedd.wales](mailto:SeneddClimate@senedd.wales)

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Llŷr,

Gweler isod atebion i'r cwestiynau a godwyd mewn llythyr dyddiedig 23 Mawrth oddi wrth Mike Hedges AS, cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig bryd hynny, yn ystod y Senedd ddiwethaf ynghylch allforio Molysgiaid Dwygragenog Byw.

Ers hynny, mae dau o'r gwelyau yn Afon Menai wedi ennill statws tymhorol 'dosbarth A'. Er nad yw hyn ynddo'i hun yn datrys y broblem, mae modd bellach ailddechrau allforion.

Byddaf yn ateb pob cwestiwn yn y llythyr yn ei dro.

### **C1. Beth yn eich barn chi yw effaith ennill y statws newydd ar y sector Molysgiaid Dwygragenog Byw (MDB) yng Nghymru?**

Mae gwaharddiad ar hyn o bryd ar allforio MDBau heb eu puro o ddyfroedd dosbarth B i'r UE. Er y bydd Defra'n dal i weithio i ailddechrau allforio, cafodd busnesau yn y diwydiant eu cynghori i addasu i'r amodau masnachu newydd hyn ac o ganlyniad, mae dwy ardal wedi ennill statws dosbarth A tymhorol, Mae Dosbarth A Tymhorol yn para o 1 Gorffennaf tan 30 Ebrill, ac yn mynd yn ôl i ddosbarth B weddill yr amser.

### **C2. Dywedoch chi fod swyddogion 'wrthi'n trafod' â'r FSA am aiddosbarthu dyfroedd Cymru. A allwch chi ddweud beth yw natur y trafodaethau hyn a'r canlyniadau rydych chi am eu gweld?**

Cafodd swyddogion drafodaethau â'r FSA am aiddosbarthu dyfroedd Cymru a chael cadarnhad bod yr FSA wedi rhoi cynllun samplu trylwyrach ar waith yn Afon Menai. Diolch i'r cynllun samplu hwnnw, mae statws dosbarth A tymhorol wedi'i roi i ddwy ardal yn yr afon.

Mae trafodaethau pellach wedi'u cynnal â'r FSA ynghylch sut i wella'r broses dddosbarthu o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol gan gadw'r ddydysgl yn wastad rhwng yr angen i gefnogi'r sector pysgod cregyn yng Nghymru ar y naill law a diogelu iechyd pobl ar y llall. Bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio'n glos â'r FSA ar hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

### **3. Beth yw'ch dealltwriaeth chi o'r dosbarth newydd? A yw'n ddosbarth dros dro a beth yw bwriad yr FSA o safbwynt y statws hwn?**

Mae'r statws dosbarth A tymhorol sydd wedi'i roi i ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn yn Afon Menai yn statws llawn, yn seiliedig ar setiau data 3-5 mlynedd. Nid statws dros dro mohono.

Yn nechrau 2020, oherwydd tywydd difrifol ac am i labordai iechyd cyhoeddus orfod cau ar gyfer popeth ond gwaith Covid, cafwyd bwch yn y set ddata. Cydweithiodd yr FSA â'r Awdurdodau Lleol perthnasol i lunio cynllun samplu trylwyrach i wneud i fyny am y diffyg yn y nifer gofynnol o samplau. Rhoddwyd y cynllun hwnnw ar waith ac mae'r nifer gofynnol o samplau wedi'u cynnal, yn unol â'r paramedrau a argymhellir ym mhrotocol dosbarthu'r FSA,

Mae'r FSA wrthi'n edrych ar y system ddosbarthu i weld a oes modd gwella'r drefn o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol a sicrhau yr un pryd y diogelir iechyd y cyhoedd at y lefel uchel bresennol. Fel y dywedwyd yn adroddiad mis Mai y Prif Weithredwr at Fwrdd yr FSA, bydd yr FSA nawr yn mynd ati'n broactif i ystyried rhoi statws tymhorol pryd bynnag y bydd canlyniadau E. Coli'n awgrymu bod angen gostwng y statws, yn hytrach na dibynnu ar Awdurdodau Lleol a chynaeafwyr i ofyn iddi ystyried hynny fel oedd y sefyllfa cynt. Rydym eisoes wedi ystyried hyn mewn perthynas ag ymchwiliadau i ganlyniadau diweddar yn Afon Menai a byddwn yn diweddarau'r dosbarthiadau sydd wedi'u rhoi pan fo angen.

### **4. Pa gamau sydd wedi'u cymryd i wella ansawdd dyfroedd Cymru i sicrhau bod modd eu hailddosbarthu'n statws A yn y dyfodol?**

Rhaid wrth gynllun ariannu dros nifer o flynyddoedd i wella ansawdd ein dŵr ac rydym yn dibynnu ar randdeiliaid a phartneriaid, yn enwedig CNC a'r cwmnïau dŵr. Mae'r pwysau ar amgylchedd y dŵr yn cynnwys llygredd o ffermydd, diwydiant, priffyrdd a threfi, gweithfeydd trin dŵr gwastraff, cyfleusterau trin carthion preifat (e.e. tanciau carthion), camgysylltiadau a gorlifoedd carthffosydd cyfunol.

Byddai'n rhaid wrth fuddsoddiad sylweddol i ddatrys yr holl broblemau a chydweithrediad nifer o randdeiliaid a phartneriaid.

Ar hyn o bryd, mae 22 o Ddyfroedd Pysgod Cregyn a Ddiogelir (SWPAs) yng Nghymru. Diben dynodi ardaloedd o'r fath yw diogelu a gwella ansawdd y dŵr i gynnal twf pysgod cregyn iach a chyfrannu at bysgod cregyn o ansawdd uchel i'w bwyta (lle bernir bod y gost yn gymesur).

Mae gan CNC raglenni monitro ym mhob SWPA lle ceir ffermydd pysgod cregyn i asesu a yw cnawd y pysgod cregyn yn cydymffurfio â'r safon ficrobaid. Mae CNC yn creu rhaglen amgylcheddol i sbarduno cwmnïau dŵr i gynnal gwelliannau. Dangosodd ymchwiliadau dros y 5-10 mlynedd ddiwethaf, ynghyd ag asesiad i weld i ba raddau y byddai cost unrhyw fuddsoddiad yn gymesur, fod angen gwella'r dŵr gwastraff oedd yn cael ei ollwng yn Nwyrain Afon Menai. Mae Gweinidogion Cymru wrthi'n adolygu holl Ddyfroedd Pysgod Cregyn a Ddiogelir yng Nghymru.

### **5. Dywedwch wrth y Pwyllgor am y diweddaraf am eich trafodaethau â Llywodraeth y DU ar allforio Molysgiaid Dwygragennog Byw i'r UE o ddyfroedd Dosbarth B?**

Llywodraeth y DU sy'n dal i fod yn gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â Masnach Ryngwladol ac allforion. Dwi'n dal i godi'r materion hyn gyda Llywodraeth y DU.

**7. Dywedoch chi os na fyddai'r fasnach mewn Molysgiaid Dwygragennog Byw yn cael ailddechrau y byddai'n rhaid i ddyframaethwyr a chynhyrchwyr pysgod cregyn ailystyried eu modelau busnes. Dywedoch chi hefyd fod angen ailadeiladu'r sector yn llwyr. Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd neu am eu cymryd i helpu'r sector yn hyn o beth?**

Ar 11 Mawrth, cyhoeddais fuddsoddiad o £2.3 miliwn yn ein cymunedau arfordirol i gefnogi'r diwydiant bwyd môr, seilwaith harbyrau ac amgylchedd y môr. Cafodd y £2.3m ei rannu rhwng dau brif gynllun, £1.3 miliwn ar gyfer Cynllun Cadernid Sector Bwyd Môr Cymru, sef grant untro i helpu busnesau pysgota sy'n berchen ar eu cychod eu hunain, i dalu am werth 3 mis o gostau sefydlog y cwch, hyd at uchafswm o £10,000.

Roedd grantiau hefyd i fusnesau dyframaethu ar gyfer tri mis cyntaf 2021, gwerth 50% o gyfartaledd eu refeniw gros misol (y flwyddyn gros orau 2017-2019) hyd at uchafswm o £40,500.

Cafodd yr £1 miliwn oedd yn weddill ei roi i'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach. Bydd pob Awdurdod Porthladd ac Awdurdod Lleol o gwmpas Cymru'n cael gwneud cais iddo am grantiau o hyd at £100,000 ar gyfer buddsoddi cyfalaf. Nod y cynllun yw sicrhau manteision amgylcheddol a gweithredol a diogelwch a sicrwydd i bawb sy'n defnyddio porthladdoedd a harbyrau Cymru trwy wella perfformiad, cynaliadwyedd, diogelwch a lles diwydiannau a'r cyhoedd.

Bydd y rhaglen tymor hwy o gymorth i sector y Môr a Physgodfeydd yn cael ei datblygu a'i dylunio ar y cyd â rhanddeiliaid gan ystyried yr ymateb i Brexit a'n Moroedd, Deddf Pysgodfeydd y DU a datblygiad Polisi Pysgodfeydd y Dyfodol.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd